Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif 104 (Cy. 17)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Gwnaed - - - -	*am 3:51 p.m. ar 31 Ionawr 2020*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Chwefror 2020*

Yn dod i rym ynunol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 3(3)(a) o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael ac nid yw paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(**2**) yn gymwys.

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), yn lle'r diffiniad o "taliadau uniongyrchol" rhodder—

> "mae i "taliadau uniongyrchol" yr ystyr a roddir i "direct payments" gan Erthygl 1 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol.";

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

(**1**) 2020 p. 2; gweler adran 3(10) am y diffiniad o "devolved authority".
(**2**) 2020 p. 1.
(**3**) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"(1A) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at y Rheoliad Dirprwyedig Llorweddol, y Rheoliad Gweithredu Llorweddol a'r Rheoliad Llorweddol, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r taliadau uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, yn gyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y maent yn bodoli mewn cyfraith ddomestig."

(3) Yn rheoliad 7, ym mharagraff (7)(a), ar y dechrau mewnosoder "ac eithrio materion sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020,".

Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015

3.—(1) Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) hepgorer "a (2)", a

(b) yn lle "Erthygl 10(1)(b)" rhodder "Erthygl 10(1)".

(3) Yn rheoliad 7, hepgorer "a (2)(c)".

(4) Yn rheoliad 11(1) a (2), ar ôl "Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig" mewnosoder "fel yr oedd yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael".

Lesley Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion
Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Am 3:51 p.m. ar 31 Ionawr 2020

(**4**) O.S. 2015/1252 (Cy. 84), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86).

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 3(3)(a) o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu Cynlluniau Taliad Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin i weithredu'n effeithiol, a diffygion yn y gyfraith UE honno a ddargedwir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.